Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD C (Gogledd Caerdydd)**

## CYMUNED GABALFA

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR001 – Gabalfa. Newid enw'r gymuned o "Gabalfa" i "Gabalfa a Mynachdy".**

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR001 – Newid enw cymuned.**
Cafwyd wyth cyflwyniad yn cynnig newid enw'r gymuned i naill ai "Maendy" neu "Maendy a Gabalfa" yn seiliedig yn bennaf ar y ffaith nad yw Stad Gabalfa o fewn cymuned Gabalfa. I gefnogi'r newid enw arfaethedig enwyd adeiladau amlwg lleol Pwll Nofio Maendy a Barics Maendy.
Gan mai yng nghymuned Cathays ac nid Gabalfa y mae dau adeilad amlwg Maendy a Maendy Road hithau, teimlwyd y byddai defnyddio Maendy yn yr enw yn peri dryswch i gymuned Cathays a Gabalfa fel ei gilydd.
Felly cynigiwyd y byddai cynnwys Mynachdy o fewn yr enw'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r gymuned yn well ac y byddai'n cynnwys enw sydd yn bodoli o fewn ffiniau corfforol y gymuned.
Rhagwelir y bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru o blaid newid enw'r adran etholiadol Sirol yn eu hadolygiad pan ddaw.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Creu cymuned newydd Talybont**
Cafwyd wyth cyflwyniad yn cynnig creu cymuned newydd Talybont a fyddai'n cynnwys neuaddau preswyl myfyrwyr Gogledd Talybont, De Talybont a Llys Talybont. Ar hyn o bryd mae De a Gogledd Talybont yng nghymuned Gabalfa ac mae Llys Talybont yn Cathays.

Wrth adolygu'r cyflwyniad ystyriwyd a fyddai cymuned ar wahân yn beth llesol i'r myfyrwyr dan sylw a hefyd a ddylid symud tair neuadd breswyl Talybont i fod o fewn un gymuned bresennol. Yn y naill achos a'r llall teimlwyd nad oedd y tair neuadd breswyl hyn yn gymuned ar wahân a oedd yn wahanol i'r myfyrwyr eraill a'r neuaddau preswyl eraill yn y cyffiniau agos.
Bydd myfyrwyr Llys Talybont ar hyn o bryd yn pleidleisio yn yr un orsaf bleidleisio (Nazareth House) â myfyrwyr eraill mewn llety preifat ac mewn neuaddau preswyl fel Severn Point - Llys y Gored Ddu, Neuaddau Victoria, Neuadd Colum, Neuadd Aberconwy a Neuadd Aberdâr.
Er bod tair neuadd breswyl Talybont i gyd yn eiddo i Brifysgol Caerdydd, y Brifysgol hefyd biau sawl llety myfyrwyr arall yn y cyffiniau agos, sef 69 a 71 North Road a thai yn Colum Road a Colum Place. Felly ni fyddai'n gymwys trin y tair neuadd breswyl hyn fel cymuned ar wahân ar sail perchnogaeth a rheolaeth.
Felly casgliad yr adolygiad yw nad yw tair neuadd breswyl Talybont yn grŵp unfath ar wahân sy'n wahanol i'r myfyrwyr eraill yn y cyffiniau cyfagos o fewn cymunedau Cathays a Gabalfa ill dwy.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd un cyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau presennol yn adlewyrchu'r cymunedau lleol a'u bod yn foddhaol. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynnig 'dim newid' hwn.

## CYMUNED Y MYNYDD BYCHAN

**Cynigion Drafft**
Cafwyd dau gyflwyniad ynglŷn â’r gymuned, un yn gofyn am beidio newid dim. Gan fod y cais am newid wedi’i wrthod, cynigir na ddylid gwneud dim newid yng nghymuned y Mynydd Bychan.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o’r Cyflwyniad: Rhannu’r Mynydd Bychan yn ddwy gymuned.**
Cafwyd dau gyflwyniad ynglŷn â’r Mynydd Bychan; un yn gofyn am beidio newid dim a’r llall yn gofyn am greu cymuned newydd “Llwyn Fedw”.
Wedi adolygu’r mater teimlwyd bod y cynnig am gymuned newydd yn rhy eang yn ei ddiffiniad o ffin Llwyn Fedw. Nodwyd hefyd nad yw gorsaf reilffordd Llwyn Fedw o fewn cymuned y Mynydd Bychan na chymuned arfaethedig Llwyn Fedw ac y gallai hyn arwain at anghytuno neu ddryswch pellach. Hefyd ni theimlid bod y Mynydd Bychan yn ymrannu’n ddau grŵp wedi’u gwahanu gan ffin gorfforol Heol Caerffili (A469). Felly, o fod wedi cael cyflwyniad o blaid newid ac yn erbyn, teimlwyd y dylid gwrthod creu cymuned newydd Llwyn Fedw.

## CYMUNED LLYS-FAEN

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR018 – Newid Ffiniau Llanisien/Llys-faen. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud eiddo rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r gronfa ddŵr i gymuned Llys-faen
    - Naill ai
        A) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Cyncoed neu
        B) adleoli cronfa Llanisien i gymuned Cyncoed a chronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu
        C) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen
    - Ceisir barn y cyhoedd ynghylch pa ddewis sydd orau.
    - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR019.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR020 – Newid Ffiniau Llys-faen/Llanisien. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Newid y ffin i adleoli'r eiddo a enwyd o gwmpas Caedelyn Court/Bryncoed i gymuned Llanisien.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR018 – Newid Ffiniau Llanisien/Llys-faen.**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Llanisien CR018 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR020 – Newid Ffiniau Llys-faen/Llanisien**
Cafwyd un cyflwyniad yn enwi 33 eiddo yng nghymuned Llys-faen i'w symud i gymuned Llanisien. Wrth adolygu'r sefyllfa gwelwyd bod yr eiddo o gwmpas Caedelyn Court a Bryncoed wedi'u gwahanu'n gorfforol oddi wrth eu cymuned bresennol gan yr M4 a rheilffordd. Oherwydd y rhwystrau corfforol hyn rhyngddynt â'u cymuned bresennol teimlwyd y câi'r eiddo well cynrychiolaeth o fewn Llanisien.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Llys-faen/ Pontprennau – Graig Llwyn Road.**
Gweler cyflwyniad gwrthodedig (1) Cymuned Pontprennau am fanylion pellach.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**

Cafwyd tri chyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau cyfredol yn adlewyrchu'r cymunedau lleol a'u bod yn foddhaol. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynigion 'dim newid' hyn.

## CYMUNED YSTUM TAF

### Cynigion Drafft

Cafwyd tri chyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Cynigir felly na ddylid gwneud dim newidiadau yng nghymuned Ystum Taf.

- Cynigir dim newid.

### Cyflwyniadau a Wrthodwyd

1) Ni wrthodwyd dim.

## CYMUNED LLANISIEN

### Cynigion Drafft

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR004 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud y ffin o amgylch Maberley Court fel bod pob eiddo yn Maberley Court yn symud o gymuned Llanisien i Gyncoed.
  - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR019.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR018 – Newid Ffiniau Llanisien/Llys-faen. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud eiddo rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r gronfa ddŵr i gymuned Cyncoed
  - Naill ai

    A) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Cyncoed neu

    B) adleoli cronfa Llanisien i gymuned Cyncoed a chronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu

    C) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen
  - Ceisir barn y cyhoedd ynghylch pa ddewis sydd orau.
  - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR019.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR019 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud eiddo rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r gronfa ddŵr i gymuned Cyncoed
  - Naill ai

    A) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Cyncoed neu

    B) adleoli cronfa Llanisien i gymuned Cyncoed a chronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu

    C) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen
  - Ceisir barn y cyhoedd ynghylch pa ddewis sydd orau.
  - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR018 and CR004.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR020 – Newid Ffiniau Llys-faen/Llanisien. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Newid y ffin i adleoli'r eiddo a enwyd o gwmpas Caedelyn Court/Bryncoed i gymuned Llanisien.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR021 – Creu cymuned newydd Draenen Pen-y-Graig.**
  - Creu cymuned newydd Draenen Pen-y-Graig wedi'i lleoli i'r gogledd o'r Parc Hirgul.
  - Os tynnir y cynnig drafft yn ôl, ailenwi cymuned Llanisien yn "Llanisien a Draenen Pen-y-Graig".
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR004 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed**
Cafwyd dau gyflwyniad ynglŷn ag anghysonder ffiniau Maberley Court a'i 24 eiddo. O ymchwilio ni theimlwyd bod Maberley Court yn rhan o gymuned Llanisien gan nad oes ganddi fynediad uniongyrchol i'r gymuned honno. Mae'n heol bengaead sydd â'i hunig fynedfa ar Fidlas Avenue, yng nghymuned Cyncoed. Cynigir felly y dylai'r 24 eiddo yn Maberley Court, ynghyd â'r 22 etholwr presennol, newid cymuned i fod yn rhan o gymuned Cyncoed y maent yn gorfforol ynghlwm â hi. Cynigir ymhellach mai dim ond os na weithredir cynnig CR019 y dylid gweithredu'r cynnig hwn.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR018 – Newid Ffiniau Llanisien/Llys-faen.**
Cafwyd dau gyflwyniad ynglŷn â'r eiddo oddi ar Station Road yng nghymuned Llanisien rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r Gronfa Ddŵr. Cynigiai'r ddau y caent eu gwasanaethu'n well o fod yn rhan o gymuned Llys-faen. O adolygu'r sefyllfa canfuwyd bod gan gymuned Llanisien ffiniau corfforol cryf (traffordd, rheilffyrdd a ffordd fawr) yn diffinio'i ffin ac eithrio'r ardal tuag at y gronfa ddŵr. Nodwyd gan Gyngor Cymuned Llys-faen fod trigolion yn yr ardal hon "*yn ystyried eu hunain yn gyffredinol yn drigolion Llys-faen*" a bod eu cyfeiriadau post ac eglwysig a'u cyfleusterau lleol a'u Heglwys i gyd yn Llys-faen. Nododd yr adolygiad y byddai pob heol bengaead oddi ar Station Road a'r eiddo eraill a nodwyd yn yr ardal dan sylw i gyd yn elwa o fod yn rhan o gymuned Llys-faen. Ystyriodd yr adolygiad hefyd beth fyddai'r lleoliad gorau i'r ddwy gronfa (cronfa Llys-faen a chronfa Llanisien) gan yr effeithir arnynt gan gynigion CR018 a CR019.
Argymhellir derbyn y cynnig hwn gan un ai
1) Adleoli cronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu
2) Adleoli cronfa Llys-faen, ynghyd â chronfa Llanisien, i gymuned Cyncoed neu
3) Adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen

Bydd y cynnig drafft yn gofyn i'r cyhoedd nodi pa ddewis sydd orau ganddynt gan na fynegwyd barn ynghylch yr ateb gorau o fewn y cyflwyniad.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR019 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed.**
Cafwyd un cyflwyniad ynglŷn â'r eiddo o gwmpas Usk Road / Ewenny Road / Solva Avenue. Saif yr eiddo hyn rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r Gronfa ddŵr. O adolygu'r sefyllfa canfuwyd bod gan gymuned Llanisien ffiniau corfforol cryf (traffordd, rheilffyrdd a ffordd fawr) yn diffinio'i ffin ac eithrio'r ardal tuag at y gronfa ddŵr. Mae'r eiddo hyn yn perthyn yn gorfforol i Gyncoed yn hytrach na Llanisien.

Ystyriodd yr adolygiad hefyd beth fyddai'r lleoliad gorau i'r ddwy gronfa (cronfa Llys-faen a chronfa Llanisien) gan yr effeithir arnynt gan gynigion CR018 a CR019. Argymhellir derbyn y cynnig hwn gan un ai
1) Adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Cyncoed neu
2) Adleoli cronfa Llanisien i gymuned Cyncoed a chronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu
3) Adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen

Bydd y cynnig drafft yn gofyn i'r cyhoedd ba ddewis sydd orau ganddynt gan na fynegwyd barn ynghylch yr ateb gorau o fewn y cyflwyniad.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR020 – Newid Ffiniau Llys-faen/Llanisien**
Gweler Adolygiad Cyflwyniad Cymuned Llys-faen CR020 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR021 – Creu cymuned newydd o fewn Llanisien.**
Cafwyd dau gyflwyniad yn gofyn am greu cymuned newydd Draenen Pen-y-Graig, ar sail natur arwahanol y ddau hanner a bod enw Draenen Pen-y-Graig ar y ganolfan gymuned, llwybrau bysus, yr orsaf reilffordd a'r ysgol gynradd. Cafwyd un cyflwyniad yn datgan na ddylid hollti cymuned Llanisien yn ddwy oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y ddwy ran. Cafwyd cyflwyniad arall yn gofyn am newid enw'r gymuned i "Llanisien a Draenen Pen-y-Graig" ar sail y twf ym mhoblogaeth Draenen Pen-y-Graig.

Wrth adolygu nodwyd fod gan y naill ran a'r llall ysgolion cynradd, tafarndai, siopau a pharciau ar wahân, er eu bod yn rhannu'r ysgol uwchradd a'r ganolfan hamdden. Mae'r parc hirgul a natur arwahanol y datblygiadau adeiladu diweddarach yn Nraenen Pen-y-Graig yn awgrymu y gellir gweld Draenen Pen-y-Graig fel cymuned ar wahân, yn enwedig gan nad oedd tystiolaeth dros y cais am beidio â gwahanu. Argymhellir felly y dylid gwneud cynnig drafft i greu cymuned newydd Draenen Pen-y-Graig gan nodi os caiff y cynnig drafft ei wrthod, yr ailenwir cymuned Llanisien yn "Llanisien a Draenen Pen-y-Graig".

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**

**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**

Cafwyd un cyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau cyfredol yn adlewyrchu'r cymunedau lleol a'u bod yn foddhaol. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynnig 'dim newid' hwn.

# CYMUNED PENTREF LLANEIRWG

**Cynigion Drafft**
Cafwyd pedwar cyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau cyfredol yn adlewyrchu'r cymunedau lleol a'u bod yn foddhaol.
Gan fod pob cyflwyniad o blaid newid wedi'i wrthod, cynigir na fydd dim newid ar gymuned Pentref Llaneirwg.

**Cynnig:** Dim newid

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Pentref Llaneirwg/Pontprennau**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am i'r ardal rhwng yr M4, A4232, Afon Rhymni a'r A48 newid cymuned gan y bydd tai ar ddatblygiad sydd wedi'i gynnig i'r dyfodol yn cysylltu â Ffordd Gyswllt Pentwyn yn hytrach na Tŷ'r Winch Road. O adolygu'r sefyllfa nodwyd bod y datblygiad tai'n debygol o gael ei adeiladu dros 8 – 15 mlynedd, sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Teimlwyd mai amhriodol fyddai rhagfynegi gofynion cymunedol y datblygiad hwn mor bell o flaen llaw. Awgrymir y dylid adolygu'r ardal hon yn yr adolygiad cymunedau nesaf.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Pentref Llaneirwg/Tredelerch/ Trowbridge**
Cafwyd pedwar cyflwyniad yn gofyn am gywiro anghysonder ffiniol, sef bod Offeryn Statudol 2009 Rhif 3052 (W.268) wedi newid ffin y gymuned ond nid ffin yr adran etholiadol Sirol gyfatebol. Mae hyn yn berthnasol i ffin Pentref Llaneirwg / Tredelerch sy'n gysylltiedig â Duncan Close a'i 26 eiddo a 42 o etholwyr. Mae hefyd yn berthnasol i Bethania Row/Kenneth Treasure Court a'i 43 eiddo a 54 o etholwyr. Roedd tri chyflwyniad o blaid parhau â'r Offeryn Statudol a gwneud y newid ôl-ddilynol yn sgîl hynny ac roedd un o blaid diddymu'r Offeryn Statudol. O adolygu'r sefyllfa nodwyd nad yw'r anghysonder hwn yn bodoli a bod yr Offeryn Statudol wedi gweithredu newid ôl-ddilynol i ffin yr adran etholiadol Sirol. Mae'r ddwy ffin yn cydweddu â'i gilydd.

## CYMUNED PONTPRENNAU

**Cynigion Drafft**
Cafwyd pedwar cyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Gan fod y ddau gyflwyniad o blaid newid wedi'u gwrthod, cynigir na fydd dim newid ar gymuned Pontprennau.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Llys-faen/ Pontprennau – Graig Llwyn Road**
Cynigiwyd y dylid trosglwyddo eiddo o amgylch Graig Llwyn Road, o gwmpas Cathdy Llys-faen, o gymuned Pontprennau i Lys-faen. O adolygu'r sefyllfa nodwyd y gallai'r cynnig effeithio ar sawl eiddo ac y byddai'n anodd pennu ffin yn foddhaol a fyddai'n datrys problem ymddangosiadol y ffin amhriodol heb greu problem newydd lle byddai eiddo gwahanol yn cael eu gweld fel rhai fyddai ar yr ochr anghywir i'r ffin. Achosir y sefyllfa hon o adleoli'r broblem gan natur wasgaredig yr eiddo yng nghymuned Pontprennau sydd i'r gogledd o'r M4. Penderfynwyd felly na ellid gweithredu'r cynnig heb adleoli'r broblem i rywle arall.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Pentref Llaneirwg/Pontprennau**
Gweler cyflwyniad gwrthodedig (1) Pentref Llaneirwg am fanylion pellach.

# CYMUNED RHIWBEINA

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR012 – Newid enw cymuned.**
  - Newid enw'r gymuned i "Rhiwbeina a Phantmawr".

**CR012 – Newid enw'r gymuned i "Rhiwbeina a Phantmawr"**
Cafwyd tri chyflwyniad yn gofyn am newid enw'r gymuned i gynnwys cymuned Pantmawr y barnwyd bod ganddi ei hunaniaeth gymunedol ei hun, ond ei bod yn rhy fach i gael ei gwahanu'n gorfforol i fod yn gymuned annibynnol. O adolygu'r sefyllfa, cytunwyd â'r safbwynt hwn, ac felly cynigiwyd glynu at ddewis enw'r holl ymatebwyr, sef Rhiwbeina a Phantmawr. Disgwylir y bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru'n bleidiol i newid enw'r adran etholiadol Sirol yn eu hadolygiad yn dilyn hyn.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Creu cymuned newydd Pantmawr**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am greu cymuned newydd i Bantmawr, cafwyd dau gyflwyniad yn gofyn am beidio newid dim o gwbl a dau gyflwyniad arall yn gofyn am beidio newid ffiniau o gwbl.
Yn y cyflwyniadau gwnaed y pwynt yn benodol na ddylid trin ardal Pantmawr fel cymuned ar wahân. O adolygu'r sefyllfa cytunwyd â'r safbwynt hwn. Felly gwrthodwyd y cais am sefydlu cymuned newydd.

**2) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd dau gyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau cyfredol yn adlewyrchu'r cymunedau lleol a'u bod yn foddhaol. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynigion 'dim newid' hyn.

## CYMUNED TONGWYNLAIS

### Cynigion Drafft
Cafwyd dau gyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Felly, cynigir na fydd dim newid ar gymuned Tongwynlais.

- Cynigir dim newid.

### Cyflwyniadau a Wrthodwyd
1) Ni wrthodwyd dim.

## CYMUNED YR EGLWYS NEWYDD

**Cynigion Drafft**
Cafwyd un cyflwyniad o blaid peidio â newid dim ar y gymuned. Gan fod y cais am greu cymuned newydd Coryton wedi'i wrthod, cynigir na fydd dim newid ar gymuned yr Eglwys Newydd.

- Cynigir dim newid.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Creu cymuned newydd Coryton.**
Cafwyd cyflwyniad yn cynnig creu cymuned newydd i'r gogledd o'r Eglwys Newydd i'w galw'n "Coryton". Cynigiwyd hyn ar sail nodweddion daearyddol amlwg gorsaf reilffordd Coryton, cyffordd y draffordd a'r ysgol gynradd.
O adolygu'r sefyllfa teimlwyd er bod enw Coryton ar y nodweddion lleol amlwg, nad oedd dim ffin gorfforol o bwys yn gwahanu ardal y gymuned newydd arfaethedig oddi wrth weddill yr Eglwys Newydd. Nid oedd ychwaith unrhyw arwydd o bwys y gellid ei weld fod y boblogaeth wedi'i rhannu'n grwpiau gwahanol ar sail yr ardal lle'r oeddent yn byw yn yr Eglwys Newydd. Gan na ellid canfod grŵp ar wahân gyda'i hunaniaeth ei hun i gael yr enw "Coryton" cynigir gwrthod y cyflwyniad hwn.